**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

## CYNLLUN DRAFFT AR GYFER GWELLA A LLESIANT 2017-18

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno'r Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2017-18 er mwyn i'r aelodau gael ei gymeradwyo.

## Cyflwyniad

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009 ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

3 Rhaid i'r ATAau gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'r Cynllun yn ymwneud â hi. Rhaid i'r ATAau hefyd gyhoeddi eu cyfres gyntaf o amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf.

4 Wrth gyhoeddi ei amcanion llesiant, rhaid i'r ATA ddisgrifio'r camau y mae'n cynnig eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant, ac ar yr un pryd, rhaid iddo gyhoeddi datganiad sy'n esbonio:

- pam fod yr ATA yn ystyried y bydd ei amcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant;
- pam fod yr ATA yn ystyried bod ei amcanion llesiant wedi cael eu gosod yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- y camau y bydd yr ATA yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

- sut bydd yr ATA yn llywodraethu ei hun er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant;
- sut bydd yr ATA yn cadw golwg ar y camau y mae’n eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant;
- sut bydd yr ATA yn sicrhau bod adnoddau’n cael eu dyrannu bob blwyddyn er mwyn cymryd camau i gyflawni ei amcanion;
- pryd y mae’r ATA yn disgwyl cyflawni ei amcanion llesiant; ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall am ei amcanion llesiant.

5 Cyhoeddwyd cyngor yn esbonio bod modd trin amcanion gwella a llesiant fel petaent yr un rhai i bob pwrpas. Felly, drwy integreiddio prosesau ar gyfer gosod yr amcanion allweddol hyn, ac adrodd yn eu cylch, gall awdurdodau gyflawni eu dyletswyddau dan y ddau faes deddfwriaethol.

**Gwybodaeth**

6 Yng nghyfarfod yr ATA ar 19 Medi 2016, bu’r aelodau’n ystyried ac yn cymeradwyo dogfen ymgynghori ddrafft a oedd yn esbonio amcanion arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer 2017-18 ac yn gwahodd ymatebion i’w cyflwyno erbyn 12 Rhagfyr 2016.

7 Yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2017, bu’r Panel Gweithredol yn ystyried yr ymatebion a ddaeth i law gan gymeradwyo paratoi Cynllun Gwella a Llesiant drafft terfynol ar gyfer 2017-18 ar sail pedwar amcan, i’w gymeradwyo gan yr ATA yn y cyfarfod hwn.

8 Mae’r drafft terfynol (Atodiad 1) yn cyflwyno’r pedwar amcan fel ‘camau’ tuag at ddau amcan llesiant hirdymor.

9 Yn dilyn trafodaeth yng Ngweithgor y Cynllun Gwella yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2017, mae geiriad y pedwerydd ‘cam’ wedi cael ei addasu i adlewyrchu’r agweddau cydweithredol ac integredig ar amrywio’r gwasanaethau a ddarperir.

**Argymhelliad**

10 Gofynnir i’r Aelodau gymeradwyo drafft terfynol y Cynllun Gwella a Llesiant 2017-18 a’r Datganiad i’w cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2017.